# Y LANFA



## GWERTHUSIAD O'R ARDAL GADWRAETH

CAERDYDD

CARDIFF
CAERDYDD

2009

# cynnwys

**Map1:** Ffin Ddiwygiedig Ardal Gadwraeth y Lanfa Mabwysiadwyd 2009

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Ardaloedd Cadwraeth – Cefndir
1.2 Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth
1.3 Gwerthusiadau o Ardaloedd Cadwraeth a Strategaeth Canol y Ddinas
1.4 Cyd-destun y Polisi

## 2. Y CYD-DESTUN HANESYDDOL

2.1 Gwreiddiau a Datblygiad Hanesyddol yr Ardal

## 3. ASESU CYMERIAD YR ARDAL

3.1 Lle o Ansawdd Trawiadol
3.2 Presenoldeb Adeiladau o Nod a Nodweddion Tirwedd
3.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat
3.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun
3.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel
3.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel

## 4. ARDALOEDD Â CHYMERIAD

## 5. MATERION PERTHNASOL A CHYFLEOEDD

## 6. FFRAMWAITH AR GYFER GWEITHREDU

6.1 Cyflwyniad
6.2 Gweithio mewn Partneriaeth
6.3 Argymhellion

## 7. YMGYNGHORIAD

Geirfa

Cyfeiriadau


Diolchiadau

Manylion Cyswllt a Gwybodaeth

Atodiad 1 – Adolygiad o'r Ffin

Atodiad 2 – Cyfarwyddyd Erthygl 4

# Map 1: Ffin Ddiwygiedig Ardal Gadwraeth y Lanfa Mabwysiadwyd 2009



# 1 cyflwyniad

## 1.1 Ardaloedd Cadwraeth – Cefndir

Mae Ardaloedd Cadwraeth yn ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Gwneir penderfyniad ynghylch dynodi Ardal Gadwraeth yn dilyn asesiad o gymeriad yr ardal dan sylw. Mae hyn yn aml yn cynnwys mwy na'r adeiladau yn unig. Mae trefn y ffyrdd, y strydoedd, coed ac ardaloedd gwyrdd oll yn cyfrannu at ansawdd ardal. Mae dynodi ardal yn un gadwraeth yn gwarchod ei chymeriad ac i sicrhau hyn, mae gan y Cyngor fwy o reolaeth dros ddymchwel adeiladau neu newid adeiladau mewn ffyrdd bychain, ac hefyd wrth warchod coed.

## 1.2 Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i adolygu Ardaloedd Cadwraeth er mwyn penderfynu a oes angen newid y ffiniau a nodi camau posibl ar gyfer gwella a diogelu pob Ardal Gadwraeth. Mae Strategaeth Ardal Gadwraeth wedi ei chreu i reoli'r broses hon. Mae'r Strategaeth yn nodi blaenoriaethau'r ddinas, a'r meini prawf i'w defnyddio wrth asesu ardaloedd cyfredol a newydd.

## 1.3 Gwerthusiadau o Ardaloedd Cadwraeth a Strategaeth Canol y Ddinas

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o ddatblygiad hanesyddol ardal y Lanfa ac asesiad o gymeriad, gan ddefnyddio nifer o briodweddau neu feini prawf allweddol. Mae'r meini prawf yn dilyn cyngor gan y llywodraeth a Strategaeth Ardaloedd Cadwraeth Caerdydd 1997. Dilynir pob asesiad gan adran derfynol yn nodi'r materion sy'n effeithio ar ansawdd yr ardal a'r cyfleoedd ar gyfer gwella. Mae'r canfyddiadau yn adlewyrchu 'Gwerthusiadau Ardaloedd Canol y Ddinas' sydd wedi'u paratoi i gefnogi Strategaeth Canol y Ddinas. Mae'r Strategaeth yn darparu fframwaith ar gyfer twf a datblygiad canol y ddinas rhwng 2007 a 2010 ac ynddo cydnabyddir cyfraniad treftadaeth a diwylliant i'r ddinas.

## 1.4 Cyd-destun y Polisi

Rhan allweddol o'r gwaith o werthuso yw diffinio cymeriad yr Ardal Gadwraeth, a pharatoi canllawiau priodol. Gall polisïau eraill sy'n cyd-fynd â'r fframwaith cynllunio statudol gynorthwyo hyn. Darperir hyn drwy Gynllun Datblygu Unedol Caerdydd, tan fydd Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei baratoi.







- Adeilad y Pierhead
- Windsor Esplanade
- Canolfan Mileniwm Cymru

# 2 y cyd-destun hanesyddol

## 2.1 Gwreiddiau a Datblygiad Hanesyddol yr Ardal







- Y Lanfa (1895)
- Y Lanfa (1912)
- Bute Esplanade (Dechrau'r 20fed Ganrif)

Roedd Chwyldro Diwydiannol y 1790au yn allweddol i hanes Caerdydd, gan iddo hybu cloddio glo yng nghymoedd De Cymru. Arweiniodd hyn at adeiladu Camlas Sir Forgannwg yn 1794, a oedd yn cludo haearn a dur o'r cymoedd i Gaerdydd.

Wrth i'r diwydiant hwn ehangu daeth yn amlwg bod angen ffurf trafnidiaeth mwy effeithlon ac yn 1840 agorodd Rheilffordd Cwm Taf. Arweiniodd y twf sydyn hwn yn y fasnach haearn a glo at adeiladu nifer o ddociau yng Nghaerdydd. Roedd y rhain yn cynnwys Doc Gorllewin Bute, y doc cyntaf i'w agor gan 2il Ardalydd Bute yn 1839, a'i fynedfa fôr, y Basn Hirgrwn, Doc y Dwyrain a agorwyd yn 1855, Basn y Rhath yn 1874, Doc y Rhath yn 1887, a Iard Gychod Mount Stuart, a'i 3 doc yn 1900 a Doc Alexandra yn 1907.

Yn ystod y cyfnod hwn, tyfodd Butetown a'r ardal ddociau o'i chwmpas yn gymuned gosmopolitaidd gyda morwyr o bob rhan o'r byd yn symud i Gaerdydd, lawer ohonynt yn ymgartrefu yn ardal y dociau, y dechreuwyd ei galw'n 'Tiger Bay'. Helpodd y cyfoeth hwn o fewnfudwyr i adeiladau'r dociau, tra hefyd yn gweithio ar y llongau ac yn cynorthwyo i wasanaethu'r ddinas ddiwydiannol forwrol hyn.

Yn ogystal â dociau newydd, adeiladwyd maestref ar ffurf grid ar gyfer gweithwyr, er i lawer o'r tai gorau gael eu dymchwel yn fuan neu eu troi'n ganolfannau busnes, yn enwedig yn Sgwâr Mount Stuart a ddatblygodd yn ganolfan fasnachol i'r ardal. Newidiodd hyn olwg y Sgwâr yn ddirfawr, yn enwedig pan godwyd y Gyfnewidfa Lo yn y sgwâr canolog, a fu gynt dan wair.

Erbyn y 1880au, roedd Caerdydd wedi troi o fod yn dref fechan i fod yn dref fwyaf Cymru gyda'i phorthladd yn allforio mwy o lo nag unrhyw borth arall yn y byd. Ar drothwy'r Rhyfel Byd Cyntaf, roedd mwy o lo yn cael ei allforio nag erioed o'r blaen gyda phris rhyngwladol glo yn cael ei bennu yn y Gyfnewidfa Lo yn y bae. Ar ôl yr Ail Ryfel Byd, fodd bynnag, roedd y galw am lo wedi cwympo a chollwyd marchnadoedd rhyngwladol wrth i wledydd eraill ddatblygu eu diwydiannau dur eu hunain. Roedd porthladdoedd amlwytho yn ennill mwy a mwy o gontractau masnach ac erbyn y 1960au nid oedd fawr ddim glo yn cael ei allforio o Gaerdydd ac arweiniodd hyn at gau holl ddociau'r ddinas, heblaw dau.

Yn y 1960au a'r 70au cafodd y mwyafrif o dai gweithwyr y porthladd eu dymchwel dan glirio slymiau a'u hamnewid â thai Cyngor. Cafodd nifer o adeiladau masnachol eu dymchwel hefyd â nifer o rai eraill yn wag. Erbyn dechrau'r 1980au roedd Bae Caerdydd wedi dirywio'n ffisegol ac economaidd, a arweiniodd yn Ebrill 1987 at sefydlu Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i adfywio hen ardal y dociau. Roedd hyn yn cynnwys adeiladu'r Morglawdd i greu llyn dŵr croyw 200 hectar yn ogystal ag adeiladu cartrefi newydd, swyddfeydd newydd (gan gynnwys y Senedd), cyfleusterau masnachol a hamdden (megis Canolfan Mileniwm Cymru).


Mae adfywio ardal y dociau wedi newid ymddangosiad Ardal Gadwraeth y Lanfa yn sylweddol. Er bod nifer o adeiladau a strwythurau hanesyddol wedi'u cadw a'u hadnewyddu oherwydd eu gwarchod trwy eu rhestru, mae nifer o ddatblygiadau newydd ac ymdriniaeth fodern o dir cyhoeddus wedi arwain at deimlad cyfoes i'r ardal. Mae datblygiad hanesyddol yr ardal a datblygiad diweddarach diwedd

yr 20fed Ganrif a dechrau'r 21ain Ganrif wedi arwain at greu ardal amrywiol ac unigryw â chymysgedd eclectig o adeiladau, strwythurau, arddulliau, graddfa a swyddogaethau sy'n adrodd stori weledol o sut bu i ardal ddatblygu, ffynnu, dirywio ac yn y pen draw addasu i rôl newydd.


## 1880




## 1920







- Y Doc Sych (1950)
- Stuart Street 1900
- Ty Tafarn Gynt a Swyddfa Taliadau Llywio Gynt, Stuart Street 1894

# 3 asesu cymeriad yr ardal

## 3.1 Lle o Ansawdd Trawiadol

Dynodwyd Ardal Gadwraeth y Lanfa yn 1984 gan ganolbwyntio ar ran o ddociau hanesyddol Butetown, gan roi cydnabyddiaeth i'w hansawdd hanesyddol a phensaernïol. Cafodd ei hymestyn yn 1992 i gynnwys Windsor Esplanade, Windsor Terrace a Bute Esplanade, datblygiad preswyl gwreiddiol a gynlluniwyd fel cartref i weithwyr a oedd yn gysylltiedig â'r dociau. Mae ardal y dociau yn unigryw yng Nghaerdydd, ac â hanes pwysig sy'n berthnasol nid yn unig i Gaerdydd ond yn rhyngwladol. Dros yr ugain mlynedd diwethaf mae'r Ardal Gadwraeth wedi bod yn destun project adfywio eang ar y glannau sydd wedi newid ei chymeriad mewn ffordd sylfaenol a dramatig. Heddiw mae'r Ardal Gadwraeth yn gymysgedd o'r hen a'r newydd, lle mae'r hanesyddol yn weledol a hygyrch ac yn cyd-fynd â dau adeilad modern o nod, proffil uchel o'r ansawdd gorau yng Nghymru, mannau cyhoeddus a chelf gyhoeddus. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn creu Ardal Gadwraeth ag ymdeimlad unigryw o hanes, pwysigrwydd a lle, yn ystod y dydd a chyda'r nos.







- Windsor Esplanade
- 5-12 Cilgant Bute
- Doc Sych 1

### Grwpiau o Adeiladau / Strwythurau

Mae Windsor Terrace, Windsor Esplanade a Bute Esplanade yn dri grŵp nodedig o adeiladau preswyl. Yn gyffredinol, mae adeiladau o fewn pob teras yn cadw neu wedi adfer nodweddion gwreiddiol, yn enwedig ffenestri a gorffeniadau a rheilins allanol. Mae pob un yn cyfleu rhythm, cymeriad ac ymddangosiad gwreiddiol y teras. Rhoddir diogelwch ychwanegol i bob eiddo drwy Gyfarwyddyd Erthygl 4 (1) (Atodiad 2).


Mae 5-12 Cilgant Bute yn grŵp nodedig sy'n cynnwys yr adeiladau sydd wedi goroesi o'r cilgant hanesyddol. Mae'r dyluniad yn adlewyrchu'r rhan fwyaf o faestref wreiddiol Butetown, â'u graddfa a manylion pensaernïol (3-4 llawr yn ogystal ag islawr â gorffeniad rendr esmwyth, ffenestri dalennog ac addurniadau o amgylch agoriadau) yn adlewyrchu'u pwrpas gwreiddiol fel llety ar gyfer gweithwyr proffesiynol/ masnachwyr. Mae'r grŵp deniadol hwn yn rhannol ddiffinio ymyl y fynedfa i Ddoc Gorllewin Bute.


Mae'r tri Doc Sych yn drawiadol. Mae eu maint, a'u gwneuthuriad o garreg enfawr, gatiau ategol, a lociau nawr yn cynnal ehangder o ddŵr, a strwythurau eraill sy'n gysylltiedig â'r dociau. Mae'r tri doc hefyd yn nodwedd hanesyddol arwyddocaol, gyda strwythurau gweithredol oedd yn allweddol i Iard Longau Mount Stuart gynt.

Mae'r Dociau Sych hefyd yn rhan o grŵp ehangach sy'n cynnwys Techniquest a phwerdy'r Dociau Sych gerllaw. Maent yn ychwanegu cyd-destun hanesyddol i'r Dociau Sych ac yn cyfleu delwedd ehangach o dreftadaeth ddiwydiannol yr ardal.

### Maint

Ym mhrif ran yr Ardal Gadwraeth mae'r maint cyffredinol yn eang, yn nhermau'r adeiladau a'r strwythurau. Maen nhw mewn tirlun agored ac eang. Mae hyn mewn cyferbyniad i raddfa ddomestig eiddo ar Bute Esplanade, Windsor Terrace a Windsor Esplanade.


1 Windsor Esplanade, Windsor Terrace a Bute Esplanade
2 5-12 Cilgant Bute
3 Dociau Sych
4 Dociau Sych, pwerdy, Techniquest a 15- 133 Havannah Street
5 Blociau modern o unedau masnach
Ffin yr Ardal Gadwraeth


Ffin yr Ardal Gadwraeth
Golygfeydd
Golygfeydd
Pwyntiau Amlwg Allweddol

## Golygfeydd Agos a Phell



Mae golygfeydd yn rhan bwysig o'r Ardal Gadwraeth ac yn rhan o atyniad yr ardal. Gan edrych allan o'r Ardal Gadwraeth mae'r prif olygfeydd yn cynnwys y gwlyptiroedd, bae, morglawdd, Penarth Head, yr Eglwys Norwyaidd, adeiladau hanesyddol yn Ardal Gadwraeth Sgwâr Mount Stuart a'r Flourish. O fewn ac yn edrych i mewn i'r Ardal Gadwraeth mae golygfeydd o Windsor Esplanade, Windsor Terrace a Bute Esplanade, y Dociau Sych a'r ardal amgylchynol gan gynnwys Techniquest, y fynedfa i Ddoc y Gorllewin (Plas Roald Dahl), y môr a waliau'r dociau, 5-12 Cilgant Bute, Canolfan Mileniwm Cymru, Adeilad y Pierhead a'r Senedd.

## Patrymau Defnydd



Mae Ardal Gadwraeth y Lanfa yn cael ei defnyddio mewn toreth o ffyrdd. Mae ganddi ardal breswyl nodedig ac ar wahân o'r 19eg Ganrif yn cynnwys ardal chwarae fodern i blant. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif o'r ardal yn gymysgedd o fannau cyhoeddus, unedau manwerthu, cyfleusterau hamdden, dociau anweithredol o'r 19eg Ganrif ac yn gartref i Lywodraeth Cynulliad Cymru Mae cyfleusterau hamdden yn cynnwys afarndai a bwytai, canolfan ddysgu ryngweithiol i blant a chanolfan celfyddydau perfformio.

Mae'r rhan fwyaf o'r tir cyhoeddus wedi'i balmentu gydag elfen fechan yn cael ei defnyddio gan gerbydau. Defnyddir ardal Plas Roald Dahl ar gyfer digwyddiadau yn y bae yn aml. Ar draws yr ardal defnyddir celf gyhoeddus i bwysleisio hanes y dociau a chreu hunaniaeth leol.

## Symudiad



Yn yr ardal breswyl o'r 19eg Ganrif, y preswylwyr lleol sy'n gyffredinol gyfrifol am y symudiad yn yr ardal, a hynny'n symudiad pedestraidd a cherbydol. Drwy weddill yr Ardal Gadwraeth ceir symudiad gan gerddwyr gan fwyaf, a gynhyrchir gan ymwelwyr a gweithwyr lleol. Mae dwyster y symud yn amrywio yn yr ardal, yn dibynnu ar y tymor/tywydd, amser yr wythnos neu ddiwrnod neu ddigwyddiadau a gynhelir yn y bae.

Mae rhywfaint o fynediad i gerbydau ar hyd Stuart Lane, heol bengaead fer. Daw'r ardal hon yn orboblog â cherbydau yn aml gan arwain at wrthdaro cerbydol/pedestraidd. Mae bws dŵr yn mynd â phobl i Benarth ac ar hyd Afon Taf.



- Cilgant Bute 4 llawr ac islawr
- Golygfa o Fae Caerdydd
- Tir Cyhoeddus a Man Agored
- Cerflun 'Pobl Fel Ni'

## 3.2 Presenoldeb Adeiladau o Nod a Nodweddion Tirwedd

Ar gyfer y gwerthusiad hwn, adeilad o nod yw un sydd â chysylltiadau cymdeithasol a hanesyddol arwyddocaol gyda datblygiad yr ardal, sy'n unigryw yn ei leoliad, ac sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad yr ardal.

**Y Tri Doc Sych** – wedi'u rhestru'n unigol fel tirnodau pwysig i hanes porthladd a llongau Caerdydd. Gan ffurfio rhan o Iard Longau Mount Stuart yn yr 19eg Ganrif maent yn cadw eu ffurf gwreiddiol ac yn nodweddion gweledol cryf yn yr ardal. Wedi'u hadeiladu o flociau carreg brown/llwyd enfawr â chopinau'n gyffredinol o wenithfaen maent hefyd yn cynnwys grisiau a gatiau dociau metel. Mae'r strwythurau ar gyfer peirianwaith, traciau, bolardiau a chapstanau wedi'u lleoli ar ochrau dociau gerllaw a ystyrir yn rhan o'r strwythurau tirnod.

**Waliau'r Dociau a'r Môr** - fel arfer yn elfennau cryf o fewn yr ardal, oherwydd eu hehangder/maint. Maent wedi'u hadeiladu o flociau carreg brown/llwyd enfawr â chopinau'n gyffredinol o wenithfaen ac yn enghraifft dda o sgiliau adeiladu a pheirianneg Fictoraidd.

**Adeilad y Pierhead** – wedi'i restru fel adeilad canolog a hynod bwysig i hanes a gwedd dociau Caerdydd. Mae'n adeilad amlwg oherwydd ei leoliad, y defnydd o frics coch a theracota a manylion pensarnïol cymhleth megis gargoiliau, tŵr cloc a cherfwedd yn cynnwys arfbeisiau, trên, llong ac arwyddair. Mae'n adeilad Fictoriaidd eithriadol yn adlewyrchu hyder y cyfnod yn ei fanylion pensaernïol coegwych o arddulliau Dadeni Gothig a Ffrengig Canoloesol.

**5-12 Cilgant Bute** – Yr adeiladau hyn, a ddatblygwyd gan 2il Ardalydd Bute fel llety anrhydeddus ar gyfer gweithwyr proffesiynol yw'r unig adeiladau gwreiddiol sy'n weddill ar Gilgant Bute. Maent yn weledol amlwg o ran lleoliad a dyluniad. Wedi'u dylunio mewn arddull glasurol â rendr esmwyth, ffenestri dalennog a rheilins maent yn gwrthgyferbynnu â'r datblygiadau modern sydd o'u cwmpas. Mae'r grŵp wedi'i restru gan fod yr adeiladau ymysg y rhai preswyl cynharaf yn Butetown.

**Swyddfa Taliadau Llywio Gynt** – Mae'r adeilad yn un o'r ychydig adeiladau masnachol gwreiddiol yn yr ardal. Mae wedi'i adeiladu o garreg rwbel ac yn cynnwys parapetau, tŵr to canolog a chwmpawd yn dangos cyfeiriad y gwynt wedi'i weithredu gan geiliog y gwynt modern. Mae ei bensaernïaeth yn wahanol iawn i adeiladau o'i gwmpas, sydd, gyda'i geiliog gwynt unigryw yn ei wneud yn adeilad amlwg. Mae wedi'i restru am ei ddiddordeb arbennig i hanes dociau Caerdydd.

**Tŷ Tafarn y Big Windsor gynt** – mae'r adeilad hwn yn enghraifft o dŷ tafarn cywrain sy'n dyddio o gyfnod datblygiad y dociau ac mae'n un o'r ychydig adeiladau masnachol gwreiddiol sy'n bodoli o hyd. Wedi'i ailadeiladu yn 1882 mae'r adeilad tri llawr yn cynnwys ffenestri dalennog, rendr esmwyth, portico a philastrau.

**Techniquest** - Mae'r adeilad hwn yn gartref i elusen addysg gwyddoniaeth fawr. Mae'r adeilad yn cynnwys safle gwaith peirianneg gynt, ac yn defnyddio fframwaith dur yr adeilad fel ei strwythur. Mae'n adeilad amlwg a diddorol oherwydd ei faint eang, lleoliad ar gornel a'i ddefnydd o fframwaith adeilad dociau diwydiannol sy'n weladwy trwy ei waliau allanol gwydr.

**Wal yr Iard Ddociau Gynt gerllaw Bute Esplanade** – Dyma nodwedd amlwg o Bute Esplanade sy'n ddiwydiannol o ran maint a dyluniad. Mae wedi'i adeiladu o frics coch â cherrig copin mawr sy'n camu i lawr mewn mannau. Mae'n creu rhwystr gweledol a chorfforol cryf rhwng ardal fasnachol a domestig y bae.

**Canolfan Mileniwm Cymru** - Mae'r adeilad mewn lleoliad amlwg ac mae ganddo do a thu blaen dur gwrthstaen lliw efydd/copr. Mae'r adeilad trawiadol hwn yn helpu i amgáu'r fynedfa flaenorol i Ddoc y Gorllewin ac yn cyfrannu at hunaniaeth leol trwy ei ddyluniad a'i bresenoldeb unigryw.

**Y Senedd** – Mae'r adeilad hwn mewn lleoliad amlwg ar y glannau. Mae'n weledol drawiadol ac yn cyfrannu at hunaniaeth leol ac arwyddocâd cenedlaethol yr ardal trwy ei ddyluniad unigryw a'r grisiau mawreddog wrth y fynedfa.









- Doc Sych waliau
- Waliau'r Dociau
- Adeilad y Pierhead
- 5-12 Cilgant Bute












- Y Swyddfa Taliadau Llywio Gynt
- Tŷ Tafarn y Big Windsor Gynt
- Techniquest
- Wal Iard y Dociau gynt

## Map 4 : Adeiladau/Strwythurau o Nod




## Map 5 : Gwneuthuriad Hanesyddol



## 3.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat

Yn gyffredinol mae modd adnabod mannau cyhoeddus a phreifat yn yr Ardal Gadwraeth gan fod blaen adeiladau a thir caeedig ffiniol yn diffinio'r naill a'r llall. Yn gyffredinol nid oes llawer o fannau preifat gyda'r adeiladau, yr amlycaf yw gerddi blaen a chefn Windsor Terrace, Windsor Esplanade a Bute Esplanade, yr ardaloedd blaengwrt/islawr bychain a gerddi cefn eiddo 5-12 Cilgant Bute a blaengwrt Techniquest.

## 3.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun

Mae ystod o ddeunyddiau yn yr Ardal Gadwraeth oherwydd amrywiaeth ac oed y strwythurau, adeiladau a mannau cyhoeddus sydd yno.

Mae carreg yn ddeunydd pwysig mewn perthynas â strwythurau ac adeiladau hanesyddol. Fe'i defnyddir mewn blociau enfawr ar gyfer waliau'r dociau a'r môr, ar gyfer adeiladu'r swyddfa taliadau llywio, tai Windsor Esplanade a Windsor Terrace a rhai waliau ffiniol. Mae'r math o garreg yn amrywio o wenithfaen ar gyfer cerrig copin ar waliau'r dociau a'r môr i dywodfaen ar gyfer y tai, sydd hefyd wedi'u haddurno â manylion carreg Caerfaddon.

Er nad oes llawer o frics coch yn yr ardal, fe'i defnyddir at effaith arbennig ar adeilad y Pierhead. Mae hefyd yn nodwedd o'r pwerdy rhestredig sy'n gysylltiedig â'r Dociau Sych ac o'r wal ffiniol uchel gerllaw Bute Esplanade.

Defnyddir rendr yn helaeth drwy'r ardal. Mae'n hynod ddeniadol pan fo wedi ei gyfuno gyda manylion pensaernïol fel y gwelir ar eiddo ar hyd Bute Esplanade, 5-12 Cilgant Bute a thŷ tafarn y Big Windsor gynt.

Mae tri adeilad yn amlwg o ran eu deunyddiau anarferol neu leol sy'n cyfrannu at gymeriad yr ardal:

- Canolfan Mileniwm Cymru
- Y Senedd
- Adeilad Techniquest

## 3.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel

Mae enghreifftiau o adeiladau sy'n cynnwys nifer o fanylion pensaernïol o ansawdd drwy'r Ardal Gadwraeth. Mae eiddo preswyl o fewn yr Ardal Gadwraeth yn dangos arddulliau pensaernïol generig a nodweddon sy'n eu huno; fodd bynnag, mae adeiladau masnachol wedi'u cynllunio fel unedau unigol gan arwain at amrywiaeth o gynlluniau adeiladu heb arddull fasnachol generig neu nodweddion sy'n eu huno.









- Defnydd o garreg
- Defnydd o Frics Coch
- Defnydd o Rendr
- To efydd Canolfan y Mileniwm









- Nodweddion pensaernïol ar Windsor Esplanade
- Nodweddion pensaernïol ar Bute Esplanade
- Adeilad y Pierhead
- Nodweddion pensaernïol ar adeilad y Pwerdy

Windsor Esplanade yw'r teras mwyaf gorffenedig a oroesodd o faestref wreiddiol Butetown. Mae'n dangos nifer o nodweddion deniadol, naill ai'n rhai gwreiddiol neu wedi'u hadfer, megis naddiad Carreg Caerfaddon, copinau, cornisiau a pharapetau; ffenestri cromen atig crwn, ffenestri bae, simneiau brics coch, talcenni ffurfiedig/Iseldiraidd, terfyniadau a ffenestri dalennog.

Mae tai Bute Esplanade o wahanol arddull ond hefyd â nodweddion deniadol megis gorffeniad rendr esmwyth.
Cynlluniwyd 5-12 Cilgant Bute fel tai ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maestref wreiddiol Butetown. Fel Bute Esplanade mae'r eiddo hyn wedi'u gorffen mewn rendr esmwyth â ffenestri dalennog, architrafau a bargodion.

O ran adeiladau masnachol, yr adeilad mwyaf amlwg yw Adeilad y Pierhead o ddiwedd y 19eg Ganrif. Wedi'i adeiladu o frics coch a theracota, mae'n cyfuno arddulliau Gothig Canoloesol a'r Dadeni Ffrengig ac yn arddangos amrywiaeth o nodweddion deniadol gan gynnwys tŵr cloc â pharapetau a gargoiliau; brest simnai sy'n cynnwys arfbeisiau, trên, llong ac arwyddair; a thyredau cromennog dros y fynedfa i'r adeilad.

Mewn man arall, mae'r Big Windsor gynt yn adeilad rendr esmwyth deniadol yn cynnwys manylion megis parapet, bargod, architrafau, ffenestri dalennog, portico, plastrau a mowldiau dail gwinwydd a grawnwin.

Gerllaw mae'r Swyddfa Taliadau Llywio gynt yn cyferbynnu'n llwyr ond hefyd yn gyfoeth o fanylion pensaernïol wedi'i hadeiladu o garreg â chonglfeini, bondo bracedi, parapetau, simneiau carreg a thŵr to canolog â cheiliog gwynt modern sy'n dangos cyfeiriad y gwynt ar gwmpawd ar waelod y tŵr.

Mae hyd yn oed adeilad y pwerdy, adeilad diwydiannol a oedd yn darparu pŵer ar gyfer gatiau'r dociau a pheirianwaith y Dociau Sych, yn cynnwys nodweddion pensaernïol deniadol megis bondo corbelaidd a ffenestri â bwâu crwn.




Mowldiau dail gwinwydd a grawnwin, Big Windsor



Dormer atig crwn, simneiau brics coch a manylion Carreg Caerfaddon, Windsor Esplanade



Talcen Iseldiraidd â ffenestr ddalennog â ffrâm pren a waliau tywodfaen, Windsor Esplanade



Waliau rendr esmwyth clasurol, â dormerau gebl, ffenestri dalennog ac architrafau, Bute Esplanade



Filâu clasurol â manylion rendr esmwyth a ffenestri dalennog, Cilgant Bute



Waliau brics coch â manylion yn cyfuno arddulliau Gothig Canoloesol a'r Dadeni Ffrengig, Adeilad y Pierhead



Tŵr cloc â pharapetau a manylion pensaernïol gargoil, Adeilad y Pierhead



Tŵr to canolog carreg â cheiliog gwynt modern, y swyddfa Taliadau Llywio gynt



Manylion pren ar ochr isaf to'r Senedd

# 3.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel









- Esiampl o bostyn lamp Fictoraidd
- Amrywiaeth y deunydd palmant ar hyd Plas Roald Dahl
- Ardal eistedd gyhoeddus â thirwedd feddal
- Nodwedd dŵr gerllaw Doc Sych 1

Mae'r rhan fwyaf o'r tir cyhoeddus yn cynnwys tirlunio caled. Mae amrywiaeth eang o ddeunyddiau palmant, y cwbl yn newydd ac eithrio hen waliau'r dociau a'r môr, sy'n rhoi ymdeimlad cyfoes i'r tir cyhoeddus yn gyffredinol. Mae deunyddiau yn cynnwys llechi, palmantau carreg, coblau gwenithfaen, gro/sglodion bondiog, pafin brics, blociau concrid a deciau pren. O'r herwydd nid oes unrhyw ddeunydd palmantu penodol neu nodweddiadol yn yr ardal.

Yn nhermau dodrefn stryd, mae polion lampau a bolardiau Fictoriaidd yn gyffredin o amgylch ardal y Dociau Gro. Mewn man arall, mae goleuadau a bolardiau o ddyluniad a deunyddiau cyfoes fel seddi a byrddau cyhoeddus. Mae arwyddbyst hefyd yn fodern fel yr hysbysfyrddau.

Yn nhermau tirlunio mae'r coed wedi'u lleoli yn yr ardal breswyl, i'r gogledd o Blas Roald Dahl, gerllaw Adeilad y Pierhead ac yn yr ardal eistedd gerllaw Swyddfa'r Taliadau Llywio. Mae hefyd gardd fechan/border o blanhigion gerllaw Doc Sych 1 yn ogystal â nifer o blanhigion eraill yn yr ardal eistedd gerllaw bwyty Harry Ramsdens. Mae'r planhigion hyn yn helpu i leddfu'r amgylchedd adeiledig. Mae'r coed yn yr ardal breswyl yn goed aeddfed a chollddail ac yn cyfrannu at gymeriad y rhan hon o'r Ardal Gadwraeth. Mae'r ardd fechan/border gerllaw Doc Sych 1 yn creu man tawel gwyrdd boddhaol sy'n wahanol i unrhyw fan arall yn yr ardal.

Darperir rhywfaint o dirlun meddal gan erddi preifat.

# 4 ardaloedd â chymeriad

**Gellir rhannu'r Ardal Gadwraeth yn saith rhan arbennig:**

**1.Yr ardal breswyl sy'n cynnwys Windsor Esplanade, Windsor Terrace a Bute Esplanade -** wedi'i nodweddu gan dai o raddfa ddomestig. Mae'r ardal wedi'i gwahanu o ardal fasnachol y bae gan wal frics uchel ac ardal chwarae, mae wal gerrig sylweddol yn diffinio ymyl gwarchodfa'r gwlyptiroedd.

**2.Ardal y Dociau Sych** – sy'n cynnwys tri Doc Sych, eu ceiau a'r pwerdy cysylltiedig, a Techniquest. Yn cynnwys gwrthrychau sy'n nodweddu'r dociau, pyst lampau Fictorianaidd, celf gyhoeddus, palmant cerrig, ardal ardd/border planhigion a nodweddion dŵr.

**3.Ardal Swyddfa'r Taliadau Llywio Gynt** - sy'n cynnwys Swyddfa'r Taliadau Llywio gynt, bwyty Harry Ramsdens, Tafarn y Big Windsor a mannau cyhoeddus gerllaw'r adeiladau hyn. Gyda phalmant cerrig, setiau gwenithfaen, coed a phlanhigion, rheilins rhestredig, nodwedd dŵr, ac ardal olygfa yn edrych dros y bae.


**4.Ardal Cei'r Fôr-Forwyn** - sy'n cynnwys dau floc o unedau masnachol modern ac adeilad hirgrwn. Gyda dau adeilad y pier a chelf gyhoeddus.

**5.Plas Roald Dahl** – sy'n cynnwys yr hen fynedfa i Ddoc y Gorllewin (bellach yn fan agored a elwir Plas Roald Dahl), man cyhoeddus arall, 5-12 Cilgant Bute, Adeilad y Pierhead, Canolfan Mileniwm Cymru ac unedau masnachol modern sy'n wynebu Plas Roald Dahl. Gyda cholofnau goleuadau cyfoes, nodwedd dŵr adlewyrchol, waliau'r doc a grisiau.

**6.Y Senedd** - sy'n cynnwys adeilad y Senedd a'r ardal amgylchynol uniongyrchol. Gyda man cyhoeddus sylweddol ag arwyneb llechi a chelf gyhoeddus.

**7. Llwybr Waliau'r Doc a Nodweddion Dŵr**- sy'n cynnwys rhodfa dec pren gerllaw'r glannau a dolffiniaid a phlatfformau arwyddion yn y dŵr. Gyda chelf gyhoeddus i nodi dechrau/diwedd Taith Taf.

## Map 6: Treflun










- Ardal Breswyl
- Y Swyddfa Taliadau Llywio Gynt
- Rhodfa Waliau'r Dociau a Nodweddion Dŵr

# 5 materion a chyfleoedd

## 5.1 Addasiadau i Adeiladau

### Materion

- Mae'r Ardal Gadwraeth yn cynnwys nifer o adeiladau o rinwedd hanesyddol a phensaernïol. Mae'r adeiladau hyn yn cyfrannu at gymeriad a gwedd yr ardal, gyda nifer ohonynt yn atgoffa rhywun o hanes unigryw'r dociau. Gan hynny, mae'n bwysig y cedwir cyfanrwydd yr adeiladau hyn gan atal addasiadau amhriodol/ansensitif, i sicrhau eu bod yn parhau i gyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad a gwedd yr ardal ac yn dehongli ei hanes.

- Er ei bod yn bwysig annog adfer ac ailddefnyddio adeiladau hanesyddol, mae angen gwrthwynebu addasiadau amhriodol/ansensitif sy'n difrïo adeiladau unigol o rinwedd pensaernïol a/neu bwysigrwydd hanesyddol a grwpiau o adeiladau o rinwedd pensaernïol a/neu bwysigrwydd hanesyddol i gadw cymeriad a golwg unigryw'r Ardal Gadwraeth.

- Mae angen gwrthsefyll colli adeiladau o bwysigrwydd pensaernïol a/neu hanesyddol i sicrhau bod yr asedau hyn yn yr Ardal Gadwraeth yn cael eu cadw ac i gynnal cymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth.

- Oherwydd natur y defnyddiau masnachol yn yr ardal, gall fod angen gwella'r mynediad at rai adeiladau yn unol â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. O ran Adeiladau 'Rhestredig' yn enwedig, bydd yn rhaid ystyried hyn gyferbyn â'r hyn sy'n 'rhesymol' yn nhermau gwella mynediad ac effaith unrhyw ymyrraeth angenrheidiol ar rinwedd pensaernïol yr adeilad.

### Cyfleoedd i Wella

- Sicrhau fod newidiadau i adeiladau yn cael eu gwneud mewn ffordd sensitif sy'n parchu cynllun a chymeriad gwreiddiol yr adeilad.

- Sicrhau fod newidiadau yn cynnwys deunyddiau o ansawdd uchel sy'n cydweddu â'r adeiladau hanesyddol.

- Dylai esblygiad cyson yr ardal, a'i haddasu at newidiadau, gydweddu â'r amgylchedd hanesyddol drwy sicrhau fod cynigion datblygu yn ystyried y prif nodweddion a ddisgrifiwyd yn y gwerthusiad, fel maint, tyrru, rhythm adeiladau a deunyddiau. Mae'n bwysig fod cynigion datblygu yn cael eu hystyried mewn cyd-destun ehangach o adeiladau.

- Sicrhau nad yw newidiadau i ochrau a chefnau adeiladau yn niweidiol i'r adeilad nac yn amlwg mewn golygfeydd o agos neu o bell. Gwella'r ochrau hyn ac annog gwaredu ar nodweddion anghydnaws.

- Sicrhau bod cynigion datblygu yn cael eu hystyried fel rhan o grŵp ehangach a'u bod o raddfa a dyluniad priodol.

- Sicrhau mynediad corfforol i adeiladau hanesyddol heb ddinistrio'u hintegriti pensaernïol na gwedd yr Ardal Gadwraeth.

- Ceisio sicrhau bod cynigion datblygu ar gyfer adeiladau tu allan i'r Ardal Gadwraeth, ond a fyddai'n effeithio arni, yn gydnaws â'i chymeriad a'i golwg.

## 5.2 Cadw Strwythurau a Nodweddion/ Arteffactau Hanesyddol

### Materion

- Mae'r Ardal Gadwraeth yn cynnwys nifer o strwythurau hanesyddol, yn benodol waliau'r dociau a'r môr. Mae'r strwythurau hyn yn unigryw i ardal y bae ac yn cyfrannu'n unigol ac fel casgliad i gymeriad a gwedd yr ardal.

- Mae addasiadau ansensitif a cholli nodweddion gwreiddiol neu strwythurau hanesyddol yn erydu asedau hanesyddol a phensaernïol a chymeriad yr Ardal Gadwraeth.

- Oherwydd natur y defnyddiau masnachol yn yr ardal, gall fod angen gwella'r mynediad at rai strwythurau/nodweddion yn unol â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. O ran Adeiladau 'Rhestredig' yn enwedig, bydd yn rhaid ystyried hyn gyferbyn â'r hyn sy'n 'rhesymol' yn nhermau gwella mynediad ac effaith unrhyw ymyrraeth angenrheidiol ar rinwedd pensaernïol yr adeilad.

- Gydol yr Ardal Gadwraeth mae amrywiaeth o nodweddion / arteffactau sy'n gysylltiedig â'r dociau hanesyddol. Mae'n bwysig cadw a chynnal y rhain, gan eu bod yn nodweddion cynhenid o hanes yr ardal, yn helpu i ddangos sut oedd yn gweithredu, ac yn cyfrannu at ei chymeriad a'i gwedd.

### Cyfleoedd i Wella

- Sicrhau bod cyfanrwydd strwythurau hanesyddol yn cael eu cadw, gan ystyried eu hymddangosiad a'u cynllun yn gyffredinol, a sicrhau bod addasiadau a chynigion amhriodol/ansensitif a fyddai'n difrïo strwythurau hanesyddol, un ai'n unigol neu fel rhan o grŵp, yn cael eu hatal er mwyn eu cadw hwy a hanes, cymeriad a gwedd unigryw'r Ardal Gadwraeth.

- Sicrhau bod nodweddion gwreiddiol yn cael eu cynnal a chadw, a'u hadnewyddu'n sensitif pan fo cyfleoedd yn codi er mwyn cadw asedau'r Ardal Gadwraeth. Mae colli nodweddion gwreiddiol yn erydu asedau a chymeriad hanesyddol a phensaernïol yr Ardal Gadwraeth.

- Gwrthsefyll colli adeiladau o bwysigrwydd pensaernïol a/neu hanesyddol i sicrhau bod yr asedau hyn yn cael eu cadw ac i gynnal cymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth.

- Cadw'r nodweddion/arteffactau yn eu safle a chynnal/gwella'r amrywiaeth o nodweddion/arteffactau mewn perthynas â'r dociau hanesyddol.

- Sicrhau bod cyfanrwydd strwythurau/adeiladau hanesyddol ac arteffactau/ nodweddion y dociau yn cael eu parchu gan unrhyw ddefnyddiau yn y dyfodol ar gyfer yr ardal/adeiladau/strwythurau.

- Sicrhau mynediad corfforol i/ar draws adeiladau/strwythurau/nodweddion hanesyddol heb ddinistrio'u cyfanrwydd pensaernïol nac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth.

## 5.3 Datblygiad newydd

### Materion

- Un o nodweddion allweddol yr Ardal Gadwraeth yw ehangder y mannau cyhoeddus a'r ymdeimlad o wagle.

- Yn gysylltiedig â datblygu, mae yn yr Ardal Gadwraeth ddatblygiad preswyl ar raddfa ddomestig i'r gorllewin ac mae gweddill yr ardal wed ei ddominyddu gan fannau ac adeiladau mawr. Mae angen i unrhyw ddatblygiad a gynigir o fewn yr Ardal Gadwraeth ystyried y nodweddion hyn i sicrhau nad yw cymeriad a gwedd yr Ardal Gadwraeth yn cael eu cyfaddawdu.

- Yn bensaernïol mae ystod eang o arddulliau a manylion. Yn gyffredinol mae manylion pensaernïol o ansawdd uchel a chynllunio arloesol yn yr ardal. Ceir hefyd ystod eang o ddeunyddiau a ddefnyddir yn ddychmygus ac sy'n cael eu harddangos i'w gorau trwy fanylion pensaernïol.

### Cyfleoedd i Wella

- Dylid gwrthsefyll datblygu mewn mannau cyhoeddus pwysig.

- Mae angen i unrhyw anghenion datblygu newydd fod o ansawdd dylunio uchel a rhaid cadw a gwella'r ansawdd esthetig, hunaniaeth/cymeriad unigryw, golygfeydd pwysig a threftadaeth a chyd-destun hanesyddol yr Ardal Gadwraeth.

- Mae graddfa'n amrywio o fewn yr Ardal Gadwraeth, gan amrywio o dai graddfa ddomestig i adeiladau cenedlaethol bwysig ar raddfa fawr. Rhaid i unrhyw ddatblygiad fod yn sensitif i'w amgylchedd i sicrhau na chyfaddawdir ar gymeriad a gwedd yr Ardal Gadwraeth.

- Er nad oes arddull bensaernïol benodol trwy'r ardal mae nifer o adeiladau yn dangos manylion pensaernïol o ansawdd uchel a chynllun arloesol. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd ddyblygu'r cynllun hwn a'r manylion o ansawdd uchel a'r arddull arloesol i gyd-fynd â strwythurau a mannau cyfredol.

- Defnyddir ystod eang o ddeunyddiau ar draws yr ardal. Mae'r adeiladau a'r mannau gorau yn defnyddio'r rhain yn ddychmygus i greu nodweddion o ddiddordeb. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd geisio defnyddio deunyddiau o ansawdd uchel a'u defnyddio i greu adeiladau o ansawdd uchel a mannau o ddiddordeb.

- Dylid gwrthsefyll cynigion a fyddai'n arwain at wynebau blaen anweithredol, un ai yn ystod y dydd neu gyda'r nos, yn enwedig ar lefel y llawr isaf. Ni ddylid gorchuddio ffenestri siopau o'r tu mewn gan fod hyn yn tynnu oddi ar gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth ac yn gwneud yr ardal yn llai croesawgar a bywiog.

## 5.4 Adeiladau Gwag

### Materion

- Gall adeiladau / unedau gwag effeithio'n negyddol ar yr ardal.

### Cyfleoedd i Wella

- Ceisio sicrhau bod unrhyw adeiladau gwag, yn enwedig adeiladau hanesyddol, wedi'u diogelu rhag tywydd gwael ac yn cael eu cynnal fel nad ydynt yn dirywio ond yn parhau i gyfrannu at gymeriad a gwedd yr ardal.

## 5.5 Caeadau Ffiniau

### Materion

- Nid oes ffordd o amgáu un o'r mannau cefn i 5-12 Cilgant Bute mewn modd priodol sy'n difrïo ymddangosiad yr ardal.

- Mae rhai waliau ffiniol gwreiddiol wedi'u colli i eiddo preswyl.

### Cyfleoedd i Wella

- Ceisio annog ffyrdd priodol o amgáu cefn pob eiddo o 5 -12 Cilgant Bute.

- Annog adfer waliau cerrig sy'n amgáu gerddi preswyl gan ddefnyddio deunyddiau ac arddull sy'n briodol i gymeriad yr ardal.

- Dylid cadw, atgyweirio a chynnal waliau cerrig sy'n amgáu gerddi preswyl er mwyn gwarchod cymeriad ac ymddangosiad yr ardal. Mae angen i waith cerrig barchu'r strwythur wreiddiol; argymhellir y defnydd o briddgalch.

- Os yw rheiliau traddodiadol wedi ffurfio rhan o'r ffin neu'r holl ffin, dylid cynnal a chadw'r rhain. Os oes angen gosod rheiliau newydd yn lle'r rhai gwreiddiol, dylai eu cynllun fod yn draddodiadol.

## 5.6 Tir Cyhoeddus

### Materion

- Mae cynllun y tir cyhoeddus yn gyfoes ac o ansawdd da. Fodd bynnag, mae modd cysylltu rhannau o'r tir cyhoeddus yn well i'w cyd-destun hanesyddol fel eu bod yn cyd-fynd ac yn parchu cymeriad yr Ardal Gadwraeth a'i hadeiladau/strwythurau hanesyddol.

- Nid yw rhai ardaloedd yn gweithio'n dda fel mannau cyhoeddus fel yr ardal gerllaw Swyddfa'r Taliadau Llywio gynt a'r ardal â lloches a phlatfform pren gerllaw Doc Sych 1. Mae modd adolygu defnydd a chynllun y tir cyhoeddus o fewn ardal y Dociau Sych i ddarganfod sut gellir gwella tir y cyhoedd gan ystyried eu cyd-destun a'u lleoliad o fewn yr ardal ddociau sy'n bodoli.

- Mae llwybr seiclo a cherdded Taith Taf yn dechrau/gorffen yn yr ardal ond nid oes ond nifer cyfyngedig o standiau beiciau a does dim arwyddion yn dangos eu lleoliad.

### Cyfleoedd i Wella

- Cyflwyno dull cyson o ansawdd uchel wrth ddylunio tiroedd cyhoeddus, fel eu bod yn diwallu anghenion modern tra hefyd yn ategu adeiladau a chyd-destun hanesyddol yr ardal.

- Ceisio cynlluniau o'r ansawdd uchaf ar gyfer tir cyhoeddus a mannau gan ystyried treftadaeth a hunaniaeth unigryw'r ardal yn ogystal ag ansawdd esthetig a defnydd yr ardal.

- Annog defnyddio deunyddiau pafin, dodrefn stryd a thirwedd o ansawdd uchel (gan gynnwys celf gyhoeddus, goleuadau a nodweddion tirnod) sy'n cyfrannu at, ategu a pharchu cymeriad yr Ardal Gadwraeth, a'i chyd-destun, adeiladau a strwythurau hanesyddol.

- Annog y gwaith o rhesymoli'r amrywiaeth o ddeunyddiau pafin a chynllun y dodrefn stryd i wella ymddangosiad ac ansawdd y tir cyhoeddus a'i helpu i lifo'n well o un man i'r llall.

- Ystyried adolygu'r defnydd a chynllun gofodau'r ardal i sefydlu sut gellir eu gwella gan ystyried eu cyd-destun hanesyddol.

- Sicrhau bod unrhyw waith ail-ddylunio / gwella tir cyhoeddus yn cynnwys cadw/ ymgorffori arteffactau/nodweddion hanesyddol yn eu safle gwreiddiol yng nghynllun y tir cyhoeddus.

- Ymchwilio i gael gwared ar rwystrau i symudiad cerddwyr.

- Sicrhau symud unrhyw arwyddion sydd allan o ddyddiad neu nad ydynt bellach yn berthnasol i gerddwyr a thraffig o fewn ac ar hyd llwybrau mynediad yr ardal. Mae angen i arwyddion i gerddwyr a thraffig fod yn gyfoes, 'adnabyddadwy', syml ac ni ddylent gystadlu'n weledol â'r ffurf adeiledig.

- Sicrhau bod unrhyw waith i ail-ddylunio/gwella tir cyhoeddus yn creu mannau gwahanol sy'n cyd-fynd â'r amgylchedd hanesyddol ac yn cryfhau cysylltiadau ag ardaloedd sydd o'u cwmpas.

- Ymchwilio a oes angen gwella'r ddarpariaeth standiau beiciau o ran eu nifer a'u lleoliad. Mae angen ystyried unrhyw ddarpariaeth standiau beiciau yn ofalus yn nhermau cynllun a lleoliad.

## 5.7 Golygfeydd Agos a Phell

### Materion

- Mae golygfeydd yn nodwedd bwysig o'r Ardal Gadwraeth.

### Cyfleoedd i Wella

- Mae angen cynnal llinellau gweld a golygfeydd pwysig o fewn, i mewn ac allan o'r ardal.

## 5.8 Patrymau Defnydd

### Materion

- Mae Ardal Gadwraeth y Lanfa yn cael ei defnyddio i wahanol bethau, nifer ohonynt yn wahanol iawn i'w defnydd hanesyddol. Mae'r defnyddiau modern hyn yn ffurfio rhan arbennig o gymeriad yr ardal a, thrwy ddatblygiad, yn rhannol siapio ffurf adeiledig yr ardal heddiw. Fodd bynnag, mae nifer o strwythurau, adeiladau hanesyddol ac arteffactau'r dociau yn parhau.

## Cyfleoedd i Wella

- Mae'n bwysig bod cyfanrwydd strwythurau/adeiladau hanesyddol ac arteffactau'r dociau yn cael eu parchu gan unrhyw ddefnyddiau yn y dyfodol ar gyfer yr ardal/adeiladau/strwythurau.

# 5.9 Symudiad

## Materion

- Er bod y rhan fwyaf o'r ardal wedi'i phedestreiddio, mae rhywfaint o fynediad i gerbydau ar hyn Stuart Lane, heol bengaead fer. Ceir tagfeydd yn aml yn yr ardal hon, gyda cheir yn gorfod bacio yn ôl i'r brif ffordd. Mae'r ardal hon yn cael ei rhannu â cherddwyr ac o'r herwydd gall tagfeydd cerbydau arwain at wrthdaro rhwng cerbydau/cerddwyr.

- Mae ceir yn aml wedi'u parcio ar linellau melyn dwbl a phalmantau ar gyffordd Stryd Bute a Stryd George Newydd. Dyma bwynt mynediad allweddol i'r Ardal Gadwraeth ar gyfer cerddwyr, er nad oes mannau croesi yn y lleoliad hwn ond ymhellach ar hyd y stryd. Gall presenoldeb cerbydau wedi'u parcio'n anghyfreithlon ar y gyffordd hon arwain at wrthdaro rhwng cerddwyr/cerbydau.

- Mae safle bws gerllaw Canolfan Mileniwm Cymru wedi'i leoli gerllaw rhes o folardiau wrth ymyl Plas Roald Dahl. Yn aml bydd rheilins dros dro gerllaw'r bolardiau er mwyn cyfeirio cerddwyr i gerdded o flaen y safle bws. Pan fydd cerddwyr yn mynd ar/oddi ar y bysus mae'n atal llif y cerddwyr gan na ellir cerdded o amgylch y safle.

- Mae ardal y bae yn atyniad ymwelwyr pwysig yng Nghaerdydd y gellir ei gyrraedd yn rhwydd ar drafnidiaeth cerbydau preifat a chyhoeddus ac ar y trên. Fodd bynnag, nid yw ei hasedau, ei lleoliad na'r llwybrau ati wedi'u hyrwyddo'n dda iawn mewn cyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus yng nghanol y ddinas neu ar y prif lwybrau cerbydol i'r bae e.e. Cylchfan Queensgate.

- Mae lle i gryfhau cysylltiadau rhwng yr Ardal Gadwraeth a'r ardaloedd amgylchynol, gan gynnwys y rheiny sy'n cysylltu i ganol y ddinas a Gwarchodfa'r Gwlyptiroedd.

## Cyfleoedd i Wella

- Ceisio gwella Stuart Lane i rwystro tagfeydd cerbydol a cherbydau'n gorfod bacio yn ôl i'r brif ffordd ac i leihau gwrthdaro rhwng cerbydau/cerddwyr.

- Ceisio gwella'r pwynt mynediad i gerddwyr i'r Ardal Gadwraeth wrth gyffordd Stryd Bute/ Stryd George Newydd. Ymchwilio i'r gwaith o ymgorffori croesfan ffurfiol i gerddwyr a mesurau i atal cerbydau rhag parcio ar y palmant a'r llinellau melyn dwbl.

- Ceisio gwella mynediad i gerddwyr yn ardal y safle bws gerllaw Canolfan Mileniwm Cymru trwy gael gwared/ail-leoli'r dodrefn stryd sy'n gweithredu fel rhwystr corfforol i symudiad cerddwyr.

- Lle bo'n ymarferol, lleihau gwrthdaro rhwng cerddwyr/cerbydau/seiclwyr.

- Ceisio hyrwyddo presenoldeb y bae a'i dreftadaeth/atyniadau/asedau wrth brif gyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus a mynediadau cerbydau i'r bae.

- Ceisio sicrhau bod arwyddion i gerddwyr a cherbydau yn yr ardal ac ar hyd llwybrau mynediad yn gyfoes.

# 5.10 Hunaniaeth Leol

## Materion

- Er gwaethaf pwysigrwydd y dociau i dwf, cyfoeth ac enw da Caerdydd yn rhyngwladol, nid oes digon o ddeunydd yn hyrwyddo a dehongli cyd-destun hanesyddol yr ardal ar y stryd na chydnabyddiaeth bod nifer o strwythurau ac adeiladau o gyfnod gweithredol y dociau yn cael eu defnyddio bellach i bwrpasau cyfoes. Mae angen hyrwyddo/dehongli hanes yr ardal a'r adeiladau/strwythurau ac arteffactau hanesyddol yn well.

- Mae celf gyhoeddus yn rhinwedd bwysig o'r ardal ac yn cyfrannu'n sylweddol at hunaniaeth leol yr ardal. Fodd bynnag, nid oes llawer o wybodaeth ar y safle am bob darn o waith celf. Mae'r Fodrwy Geltaidd yn waith celf allweddol. Fodd bynnag, nid oes llawer o ddeunydd yn hyrwyddo'r Fodrwy sy'n dynodi dechrau/diwedd llwybr seiclo a cherdded Taith Taf.

## Cyfleoedd i Wella

- Ceisio gwella ymwybyddiaeth gyhoeddus o dreftadaeth ddiwydiannol a morwrol yr ardal trwy gyflwyno/diweddaru deunydd hyrwyddo/dehongli ar y safle, megis paneli a phlaciau gwybodaeth, a gwybodaeth arall i dwristiaid, megis taflenni sy'n cysylltu tarddiad a hunaniaeth yr ardal gyda'i hadeiladau, strwythurau ac arteffactau hanesyddol.

- Ceisio darparu paneli gwybodaeth i ymwelwyr sy'n hyrwyddo atyniadau a chyfleusterau Bae Caerdydd wrth y mynediadau i'r bae gan gynnwys wrth orsaf drenau'r Bae, safleoedd y tacsis dŵr, safleoedd bysus a meysydd parcio.

- Parhau i warchod, datblygu a hyrwyddo casgliad y bae o gelf gyhoeddus o ansawdd uchel. Ystyried darparu gwybodaeth ar y safle am bob darn o waith celf yn yr ardal yn ogystal â gwybodaeth ehangach ar waith celf yn yr ardal. Sicrhau bod y gwaith celf gyhoeddus a gynigir yn briodol yn nhermau cyd-destun a lleoliad.

- Hyrwyddo'r Fodrwy Geltaidd sy'n nodi man cychwyn/gorffen llwybr seiclo a cherdded Taith Taf yn well, trwy arwyddion, gwybodaeth ar y safle a/neu ddulliau eraill.

- Ymchwilio i'r posibiliad ar gyfer llwybr treftadaeth trwy'r ardal a all gysylltu â chraidd masnachol yr ardal Butetown hanesyddol o amgylch Sgwâr Mount Stuart.

- Mae goleuadau wedi'u defnyddio'n effeithiol yn yr ardal. Rhagor o gyfleoedd i oleuo adeiladau/strwythurau, mannau a nodweddion o ddiddordeb hanesyddol a phensaernïol mewn modd sensitif.

# 6 fframwaith ar gyfer gweithredu

## 6.1 Cyflwyniad

Mae adrannau blaenorol o'r ddogfen yn disgrifio'r nodweddion sy'n creu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth, ac yn nodi'r potensial ar gyfer eu gwella. Ar ôl ei fabwysiadu, bydd yr asesiad a'r canllaw yn cael ei ddefnyddio i wneud y canlynol:

- Rhoi arweiniad ar rinweddau arbennig yr ardal a sut i'w cadw a'u gwella,
- Creu cynllun gwella i arwain datblygiad yn yr ardal,
- Fel sail i asesu ceisiadau cynllunio yn unol â Pholisi 2.53 o'r Cynllun Datblygu Unedol a gyflwynwyd hyd nes y caiff y Cynllun Datblygu Lleol ei fabwysiadu,
- Gosod blaenoriaethau ar gyfer rheoli a gwella tir cyhoeddus yn y dyfodol,

a:

- Sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau newydd yn cydweddu â chymeriad yr Ardal Gadwraeth ac yn cyd-fynd yn dda gyda'r ffurfiau a'r cynlluniau presennol.
- Mwy o ymwybyddiaeth gyhoeddus a gwerthfawrogiad o gymeriad a hanes arbennig yr ardal,
- Rhoi cymorth i berchnogion eiddo, busnesau, grwpiau ac arweinwyr cymunedol yn eu hymdrechion i gadw a gwella'r Ardal Gadwraeth,
- Cadw'r ardal yn lle deniadol i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

## 6.2 Gweithio mewn Partneriaeth

**Perchnogion Tir ac Eiddo.** Y ffordd fwyaf effeithiol o wella Ardal Gadwraeth yw sicrhau bod y rheiny sy'n cynllunio gwaith neu ddatblygiadau yn deall cymeriad yr ardal. Mae Adran 4-5 o'r ddogfen hon yn amlinellu cymeriad yr Ardal Gadwraeth.

**Y Cyngor**. Er bod Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol i baratoi cynllun ar gyfer gwella Ardal Gadwraeth, nid oes cyllideb na dull penodol ar gael i gyflawni hyn. Mae hyn yn golygu, er mwyn sicrhau gwelliannau, bod yn rhaid gweithio â strategaethau eraill ar y cyd â Gwasanaethau eraill y Cyngor neu mewn partneriaeth ag eraill.

Yn y mentrau canlynol, gallai'r Cyngor fod yn allweddol wrth ddylanwadu ar, a bwrw ymlaen â, gwelliannau.

- Defnyddio'r Gwerthusiadau fel deunydd ystyriaeth i arwain yr asesiad dros geisiadau cynllunio. Bydd disgwyl i Ddatganiadau Cynllunio a gyflwynir i gefnogi ceisiadau cynllunio ddangos bod datblygiadau wedi ystyried y cymeriad a nodir yn y ddogfen hon.

- Trwy reoli a chynnal ystâd y Cyngor.

- Trwy hyrwyddo dealltwriaeth o arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol yr ardal, a hynny drwy gysylltiadau ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru, ysgolion, llyfrgelloedd a grwpiau cymunedol eraill a Strategaeth Celf Gyhoeddus y Cyngor.

- Rheoli cyllidebau presennol y Cyngor yn effeithiol, er enghraifft wrth drwsio adeiladau, gwella a thrwsio priffyrdd a rheoli traffig.

- Rhoi cymorth i fentrau i gryfhau a gwella rôl twristiaeth, siopa a busnes yr ardal trwy fentrau a nodir o fewn Strategaeth Canol y Ddinas a'i phrif amcanion.

## Strategaeth Canol y Ddinas

Mae Strategaeth Canol Dinas Caerdydd yn chwarae rôl bwysig o ran gwella cymeriad yr Ardal Gadwraeth ac yn darparu gweledigaeth ar gyfer parhau i adfywio Canol Dinas Caerdydd ar gyfer y cyfnod 2007 – 2010, ac yn cynnwys cynigion ar gyfer ei datblygu a'i gwella. Mae'r Strategaeth yn amlinellu materion allweddol, mentrau cyfredol a dyheadau'r dyfodol ar gyfer Canol y Ddinas yn gyffredinol ac ar gyfer ardaloedd strategaeth unigol. Mae'r Lanfa yn rhan o Ardal Strategaeth y 'Glannau'. Mae 'Gwerthusiad Ardal Strategaeth' wedi'i gynhyrchu ar gyfer ardal y Glannau, gan ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar gynigion Tir Cyhoeddus ar ei chyfer.

Mae pennod Treftadaeth a Diwylliant y Strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd hanesyddol o ran disgrifio gorffennol Caerdydd a siapio'i dyfodol.

# 6.3 Argymhellion

**Mae'r argymhellion canlynol yn crynhoi'r camau i'w cymryd wrth fabwysiadu:**

- Asesiadau cymeriad a'r argymhellion uchod i'w cadarnhau fel sail ar gyfer integreiddio amgylchedd hanesyddol o fewn y Fframwaith a ddarperir gan Strategaeth Canol Dinas, a'r gwerthusiadau o'r ardaloedd cyfagos.

- Sicrhau bod y Gwerthusiad yn gweithredu fel fframwaith ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio yn unol ag Adran 72 o'r Ddeddf.

- Mabwysiadu'r ffin newydd a argymhellir yn adran gyntaf yr adolygiad a hysbysebu hynny'n unol â'r Ddeddf.

- Hyrwyddo dealltwriaeth o arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol yr ardal drwy gysylltiadau ag Amgueddfa Caerdydd, ysgolion, llyfrgelloedd a grwpiau cymunedol, a Strategaeth Gelf Gyhoeddus fabwysiedig y Cyngor.

## 7.1 Ymgynghoriad

**Mabwysiadwyd y ddogfen hon yn dilyn ymgynghoriad lleol.**

Gellir cael manylion am adeiladau rhestredig ynghyd â dogfennau polisi eraill gan y Tîm Cadwraeth ar 02920 873485.

# geirfa

| | |
|---|---|
| **Adeilad rhestredig** | Adeilad neu strwythur arall o bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol penodol, sy'n cael ei ddiogelu'n statudol gan Cadw. |
| **Architrafau** | Y mowldin o amgylch drws neu ffenestr. |
| **Ardal Gadwraeth** | Ardal o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, sy'n ddymunol i'w ddiogelu neu wella ei chymeriad neu ei hymddangosiad. |
| **Bargod** | Silff ymestynnol lorweddol gyda mowldin addurnol ar yr ochr isaf, sy'n coroni adeilad neu nodwedd er enghraifft ffenestr neu ddrws. |
| **Bondo** | Rhan o dan do llethr neu wal sy'n ymestyn drosodd. |
| **Braced** | Darn cynhaliol bychan o garreg neu ddeunydd arall. |
| **Cadw** | Adran amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru. |
| **Capstan** | Dyfais a ddefnyddir ar fwrdd llong ac ar waliau dociau ar gyfer halio neu droi rhaffau. |
| **Cerrig llanw** | Cerrig o siâp a maint afreolaidd wedi'u gosod mewn morter. |
| **Conglfeini** | Cerrig neu frics a ddefnyddir fel nodwedd addurniadol ar gorneli adeilad. Mae'r cerrig fel arfer yn cael eu gosod mewn patrwm bach a mawr am yn ail. |
| **Copin** | Capan neu orchudd ar wal. |
| **Corbel** | Rhywbeth sy'n pwyntio allan o wyneb y wal naill ai fel addurn neu i gefnogi trawst neu gydran strwythurol arall. |
| **(Y) Dadeni Ffrengig** | Ymgorffori/adfywio manylion pensaernïol a ddefnyddir yn Ffrainc o ddiwedd y 15fed ganrif i ddechrau'r 17eg ganrif. |
| **Dormer Gebl** | Ffenestr â tho wedi ei gosod ar do goleddol. |
| **Ffenestri Dalennog** | Ffenestr â fframiau gwydr llithr yn rhedeg mewn rhychau fertigol. |
| **Golygfa o bell** | Golygfa ehangach o bell. |
| **Gothig** | Ffynnodd pensaernïaeth Gothig yn Ewrop yn ystod canol a diwedd y cyfnod canoloesol. Roedd rhai o nodweddion yr arddull yn cynnwys bwa â phig. Adfywiwyd yr arddull yn ail hanner yr 18fed Ganrif ac roedd yn boblogaidd trwy gydol y 19eg Ganrif. |
| **Maint** | Cyfrannau adeilad mewn perthynas â phobl a'r cyd-destun amgylchynol. |
| **Naddiadau** | Gwaith carreg wedi ei gerfio o amgylch agoriadau neu unrhyw nodwedd |
| **Parapet** | Wal neu rwystr isel sydd ar ochr balconi neu do. |
| **Pilastr** | Rhan fflat o golofn sydd ynghlwm i'r wal, yn betryalog o ran siâp ac yn sefyll allan ychydig. |
| **Portico** | Mynedfa i adeilad sy'n cynnwys ardal wedi'i gorchuddio â cholofnau'n aml. |
| **Rendro** | Gorchudd plastr, calch neu sment ar waliau allanol. |

| | |
|---|---|
| **Rhythm** | Y patrwm a gynhyrchir trwy ailadrodd rheolaidd adeiladau, neu nodweddion ar adeilad megis pilastrau, colofnau neu ffenestri. |
| **Talcen Iseldiraidd** | Gebl ag ochrau cerfiedig neu risiog. |
| **Teracota** | Clai llosg wedi'i fowldio a ddefnyddir ar gyfer manylion pensaernïol. |
| **Terfyniad** | Nodwedd addurniadol ar ddiwedd to. |
| **Tyrru** | Mae tyrru yn cyfeirio at gyfaint a siâp adeilad ac felly'n gyfuniad o'i uchder, lled a dyfnder. |
| **Wyneb Blaen gweithredol** | Blaen stryd lle defnyddir yr adeiladau ar gyfer pwrpasau fel siopau sy'n golygu mynediad cyhoeddus ar lefel stryd. |

# Cyfeiriadau


- Buildings of Wales: Glamorgan. J Newman, Penguin Books, 1995.
- The Oxford Dictionary of Architecture. James Stevens Curl, Oxford University Press, 1999.
- The Penguin Dictionary of Architecture. J Fleming, H Honour, N Pevsner, 1991.
- Cardiff The Making of a City Centre. P. Riden, 1993.
- Cynllun Datblygu Unedol Caerdydd (Datganiad Ysgrifenedig Adneuol). Cyngor Dinas Caerdydd, 2003.
- Strategaeth Canol y Ddinas 2007 – 2010. Cyngor Dinas Caerdydd, 2007.
- Strategaeth Ardaloedd Cadwraeth. Cyngor Dinas Caerdydd, 1997.
- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.
- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 – Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol.


# Diolchiadau


- Grŵp Cynghori (Canol y Ddinas a'r Bae) Ardaloedd Cadwraeth.
- Archifdy Morgannwg.
- Cadw Henebion Cymru.


# Manylion Cyswllt a Gwybodaeth


Y Tîm Cadwraeth
Cynllunio Strategol
Ystafell 227
Neuadd y Sir,
Glanfa'r Iwerydd,
Caerdydd, CF10 4UW

Ffôn: (029) 2087 3485

# atodiad 1

## Adolygiad o'r Ffin

Mae ffin yr Ardal Gadwraeth wedi'i hadolygu i sicrhau bod nodweddion pensaernïol a hanesyddol amlwg yn dal i berthyn i'r Ardal Gadwraeth.

Mae'r asesiad o'r Ardal Gadwraeth wedi cadarnhau bod gan yr ardal gymeriad arbennig o hyd. Fodd bynnag, ers ei dynodi yn 1984 a'i hymestyn yn 1992 mae'r ardal wedi newid yn sylweddol fel nad yw rhai rhannau o'r ffin wreiddiol a oedd yn 'rhesymegol' ar yr adegau hyn yn aros felly, gan gyfiawnhau ailddiffinio rhannau o'r ffin. Hefyd mae rhai elfennau hanesyddol bwysig o ardal y dociau o'r 19 Ganrif ond wedi eu cynnwys yn rhannol yn yr Ardal Gadwraeth bresennol ac mae angen eu cynnwys yn llwyr. Am y rhesymau hyn cynigiwyd y newidiadau canlynol i ffin yr Ardal Gadwraeth fel a welir ar y map isod.



**Cynnwys Dociau Sych 2 a 3, eu ceiau ac adeilad y pwerdy a oedd yn darparu pŵer ar gyfer gatiau'r doc a pheirianwaith y ceiau**

Mae'r tri Doc Sych, y ceiau ac adeilad y pwerdy yn bwysig i hanes porthladd a llongau Caerdydd, gan ffurfio rhan o Iard Longau Mount Stuart y 19 Ganrif ar un adeg. Dim ond un doc a gynhwyswyd yn ffin wreiddiol yr Ardal Gadwraeth, ond mae cyswllt anorfod rhwng y tri Doc Sych, y ceiau ac adeilad y pwerdy ac maent yn rhan bwysig o gymeriad morwrol hanesyddol yr ardal. Mae'n bwysig eu hystyried gyda'i gilydd ac o'r herwydd cynigiwyd eu cynnwys yn yr Ardal Gadwraeth i warchod y dociau a'u lleoliad ymhellach.



**Cynnwys Techniquest**

Adeilad diddorol sy'n ymgorffori fframwaith adeilad diwydiannol hanesyddol, sy'n weledol trwy waliau gwydr allanol. Mae'r adeilad hefyd yn helpu i ddarparu cyd-destun y dociau ar gyfer y Dociau Sych trwy ei raddfa a ffurf.



- Doc Sych 2
- Techniquest
- Plas Roald Dahl

**Cynnwys mannau cefn 5-12 Cilgant Bute**

A hyn o bryd mae ffin wreiddiol yr Ardal Gadwraeth yn dilyn llinell cefn yr adeiladau hyn. Cynigiwyd newid y ffin i gynnwys y mannau cefn preifat sy'n gysylltiedig â phob eiddo i adlewyrchu ffiniau gwreiddiol a phresennol yr adeiladau hanesyddol hyn.

**Ailddiffinio Ffin y Gogledd-Ddwyrain**

Mae'r ardal o gwmpas Plas Roald Dahl, y fynedfa i Ddoc y Gorllewin gynt, wedi'i newid yn sylweddol ers dynodi'r ardal yn Ardal Gadwraeth. Nid yw'r fynedfa i Ddoc y Gorllewin, er enghraifft, yn cynnwys adeiladau mwyach ond mae'n fan agored cyhoeddus ac o'i amgylch mae nifer o adeiladau newydd a rhwydwaith ffyrdd newydd.


Yn nhermau'r rhan hon o ffin yr Ardal Gadwraeth, mae'r system ffyrdd newydd a datblygiadau eraill yn golygu na ellir adnabod ffin wreiddiol yr Ardal Gadwraeth trwy wrthrychau solet bob amser ac mae'n croesi'r mannau agored newydd a'r adeiladau newydd. O'r herwydd cynigiwyd newid ffin yr Ardal Gadwraeth i gynnwys yr holl fannau cyhoeddus o amgylch Plas Roald Dahl ac o flaen ac i'r de-ddwyrain o'r Senedd (gan gynnwys waliau'r fynedfa i Ddoc y Dwyrain gynt a'r rhodfa gerllaw'r dŵr) yn ogystal ag adeiladau 'Canolfan Mileniwm Cymru' a'r 'Senedd'.

Mae Canolfan Mileniwm Cymru a'r Senedd yn adeiladau modern o Nod sy'n cyfrannu at ansawdd lleoliad a chymeriad yr ardal; mae'r cyntaf hefyd yn helpu i amgáu a diffinio Plas Roald Dahl. Mae'r ffin ddiwygiedig arfaethedig yn cynnwys y rhain a mannau cyhoeddus amgylchynol yn eu cyfanrwydd, hyd nes bod cymeriad y mannau cyhoeddus yn newid.

**Ailddiffinio'r Ffin Deheuol**

Mae'r ddau adeilad 'pier' ac adran o'r pontynau arnofiol yn rhannol o fewn ffin wreiddiol yr Ardal Gadwraeth.

Cynigiwyd newid y ffin ddeheuol i gynnwys y ddau blatfform signalau rhestredig sy'n gysylltiedig â'r dociau blaenorol ac sy'n cyfrannu at gyfoeth hanesyddol yr ardal a dealltwriaeth ynglŷn â sut oedd y dociau'n gweithredu yn y gorffennol. Arweiniodd hyn at gynnwys y ddau strwythur pier yn gyfan gwbl, sy'n dylanwadu / effeithio ar ymddangosiad a chymeriad yr Ardal Gadwraeth.












- Canolfan Mileniwm Cymru
- Y Senedd
- Golygfa o'r Ardal Gadwraeth
- Golygfa o'r Ardal Gadwraeth

# atodiad 2

## Cyfarwyddyd Erthygl 4

Ym mis Ionawr 1994 daeth Cyfarwyddyd o dan Erthygl 4 (1) Gorchymyn Datblygu Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1988 (diwygiwyd 1995) yn weithredol, a oedd yn gwella diogelwch yr eiddo a leolir yn Windsor Esplanade, Windsor Terrace a Bute Esplanade yn yr Ardal Gadwraeth drwy reoli mân ddatblygiadau.

Yn syml, effaith y Cyfarwyddyd yw dileu hawliau Datblygu a Ganiateir a fyddai fel arall yn caniatáu i berchenogion wneud mân estyniadau neu waith addasu yn effeithio ar ymddangosiad yr eiddo o fewn ardal Cyfarwyddyd Erthygl 4, megis ailosod ffenestri neu ddrysau, adeiladau cynteddau, codi waliau ffiniau newydd ac addasu deunyddiau to. Gellir cael manylion pellach am Gyfarwyddyd Erthygl 4 (1) gan y Tîm Cadwraeth ar 02920 873485.

Mae Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn parhau i fod yn berthnasol i'r Ardal Gadwraeth a'i diogelwch parhaus. Ni chynigir unrhyw addasiadau i'r Cyfarwyddyd, nac i ffiniau ardal Erthygl 4.

Am fanylion cyswllt a gwybodaeth:

Y Tîm Cadwraeth
Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd
Dinas a Sir Caerdydd,
Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd,
Caerdydd. CF10 4UW.
Ffôn: (029) 2087 3485